Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Bryn Blodau

Cartref Preswyl Bryn Blodau
Ffestiniog
Blaenau Ffestiniog
LL41 4LW

This report is also available in English
Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/02/2024

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Bryn Blodau

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd
Lleoedd cofrestredig	41
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	20 Ionawr 2020
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus yn byw yn y cartref ac mae eu perthnasau yn canmol y gofal a ddarperir. Caiff cymorth ei ddarparu er mwyn i'r bobl gael cyngor proffesiynol ar iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd amserol sy'n eu galluogi i gadw'n iach. Mae dewisiadau ar gael o ran yr arferion dyddiol, prydau a sut mae'r bobl am dreulio eu diwrnod. Caiff barn pob unigolyn am sut yr hoffai gael ei gefnogi ei chofnodi yn ei ddogfennaeth gofal a chaiff ei ddewisiadau eu parchu gan y gweithwyr gofal. Nid yw'r cynlluniau personol yn cael eu diweddaru bob amser ac mae angen gwella hyn. Nid yw'r dogfennau yn cael eu storio'n ddiogel bob amser, ac mae hyn yn peryglu cyfrinachedd y bobl.

Mae trefniadau ar waith i recriwtio gweithwyr gofal newydd yn ddiogel ac mae'r lefelau staffio yn ddigonol er mwyn diwallu anghenion y bobl. Nid yw pob gweithiwr gofal wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol priodol, ac mae hwn yn faes y mae angen mynd i'r afael ag ef ar fyrder.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn gynnes, yn gartrefol. Gall y bobl wneud eu hystafelloedd eu hunain yn gartrefol drwy gael eu heitemau eu hunain o'u cartrefi. Mae dewis o lolfeydd cymunedol ar gael ac ardal awyr agored lle gall y bobl dreulio amser gydag eraill os ydynt yn dymuno. Nid yw'r mesurau iechyd a diogelwch sydd ar waith yn ddigonol ac mae hyn yn peri risg o niwed i'r bobl. Mae angen rhoi sylw brys i'r maes hwn.

Llesiant

Mae'r bobl yn hapus yn byw yn y cartref. Dywedwyd wrthym fod y gofal a'r cymorth a roddir iddynt yn dda a gwnaethant ganmol y prydau a ddarperir iddynt. Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a ddarperir i'w hanwyliaid, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu wrth ymweld â'r cartref a'u bod yn gallu codi unrhyw faterion y gall fod ganddynt. Caiff barn y bobl ei chasglu fel rhan o systemau'r darparwr ar gyfer monitro ansawdd y gofal a ddarperir.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel. Mae digon o weithwyr gofal ar gael i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Nid yw pob un o'r gweithwyr gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac yn effeithiol. Bydd hyn yn effeithio ar y gofal a'r cymorth a ddarperir ganddynt. Mae angen mynd i'r afael â hyn ar fyrder er mwyn sicrhau bod gan y gweithwyr gofal y wybodaeth a'r sgiliau cywir sydd eu hangen i ymgymryd â'u rolau.

Nid yw'r gwasanaeth yn ymateb i faterion diogelu yn unol â gofynion y polisi diogelu bob amser. Mae hyn yn golygu na all y bobl bob amser fod yn hyderus bod materion diogelu yn cael eu codi neu y bydd gwybodaeth amdanynt fel sy'n ofynnol. Ni chaiff gofnodion cyfrinachol eu cadw'n ddiogel bob amser, sy'n peryglu hawliau'r bobl i gyfrinachedd a phreifatrwydd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn diwallu anghenion corfforol ac emosiynol y bobl. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o gyflyrau iechyd ac anghenion gofal y bobl cyn iddynt symud i'r cartref. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd, sy'n helpu i reoli eu cyflyrau iechyd. Cadarnhaodd y gweithwyr iechyd proffesiynol bod y cartref yn cysylltu â nhw pan fydd anghenion y bobl yn newid ac mae'r gweithwyr gofal yn dilyn y cyngor a roddir. Mae'r cynlluniau personol yn cofnodi anghenion gofal a chymorth y bobl, ond ni chaiff y ddogfennaeth ei diweddaru bob amser ac mae angen gwella'r maes hwn.

Caiff iaith ei chydnabod fel rhan bwysig o hunaniaeth y bobl. Mae dewis iaith pob unigolyn yn hysbys cyn ei fod yn symud i mewn i'r gwasanaeth, a chaiff y wybodaeth hon ei chofnodi yn y dogfennau gofal. Mae diwylliant Cymru a digwyddiadau o bwys, fel Diwrnod Santes Dwynwen, yn cael eu dathlu yn y cartref. Gall y bobl gael gofal yn Gymraeg yn unol â'u dewis heb fod angen iddynt ofyn am y ddarpariaeth hon. Mae'r amgylchedd hefyd yn adlewyrchu lleoliad y cartref mewn cymuned Gymraeg gan fod cerddi a gweithiau celf sy'n dangos golygfeydd lleol i'w gweld mewn ardaloedd cymunedol. Mae rhaglenni teledu a radio Cymraeg ar gael i'r rhai sy'n eu mwynhau.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn gynnes, ond nid yw'r trefniadau sydd ar waith i reoli'r risgiau iechyd a diogelwch yn ddigonol. Mae ymdeimlad cartrefol yn ystafelloedd y bobl am eu bod yn cynnwys eu heitemau personol sy'n bwysig iddynt fel lluniau o'u teuluoedd mewn fframiau. Nodwyd sawl risg i iechyd a diogelwch y bobl yn yr amgylchedd nad oedd wedi cael ei nodi gan y darparwr ei hun. Mae angen rhoi sylw brys i'r meysydd hyn i sicrhau bod y cartref yn cynnig amgylchedd diogel i'r bobl fyw ynddo.

Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwr yn ystyried amrywiaeth o safbwyntiau a gwybodaeth berthnasol fel rhan o'r broses cyn derbyn er mwyn cadarnhau y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion y bobl. Gwelsom fod asesiad cyn derbyn yn cael ei ddefnyddio i goladu gwybodaeth berthnasol a gesglir oddi wrth y bobl sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth, a'u perthnasau, am eu hanghenion unigol. Mae asesiadau a gaiff eu cwblhau gan weithwyr proffesiynol yn cael eu ceisio a'u hystyried hefyd. Mae hyn yn golygu y gall y rheolwr fod yn hyderus y bydd yn gallu cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau unigol wrth dderbyn pobl i fyw yn y gwasanaeth. Caiff comisiynwyr wybod pan fydd anghenion gofal y bobl yn cynyddu y tu hwnt i'r hyn y gall y gwasanaeth ei ddiwallu'n llawn ac yn ddiogel, er mwyn gallu trefnu lleoliadau amgen.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod yn iach. Gwnaethom siarad â gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref a chadarnhaodd fod y cartrefi yn gwneud atgyfeiriadau priodol am gyngor pan fydd newidiadau yn iechyd y bobl. Dywedodd wrthym fod cyfathrebu da â'r gweithwyr gofal a'u bod yn dilyn y canllawiau a ddarperir. Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol arall wrthym fod y systemau sydd ar waith i reoli meddyginiaethau yn dda a bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Gwnaethom siarad â'r cogydd a ddywedodd wrthym fod y bobl yn cael dewis o ran prydau a bod deiet amrywiol yn cael ei ddarparu. Cynigir amrywiaeth addas i'r bobl â gofynion deietegol penodol. Gwnaeth y bobl ganmol ansawdd y bwyd a ddarperir yn fawr a dywedwyd wrthym eu bod yn edrych ymlaen at yr amseroedd bwyd.

Nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn cael eu diweddaru yn dilyn newidiadau i anghenion y bobl. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cael eu llunio ar y cyd â'r bobl a'u bod yn cynnwys dewisiadau'r bobl. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am anghenion gofal a chymorth presennol y bobl. Nid oedd y wybodaeth a gofnodwyd ar y dogfennau adolygu wedi cael eu trosglwyddo i gynlluniau personol y bobl. Gwelsom fod anghenion gofal un unigolyn wedi cynyddu'n sylweddol, ond nid oedd cofnod o hyn yn ei gynllun personol, ei ddogfen adolygu nac yn ei gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Gwnaethom gadarnhau bod yr unigolyn yn cael y gofal cywir drwy adolygu dogfennau gofal eraill a thrafod y mater â'i weithwyr gofal a'r gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref. Dengys y cofnodion fod y rheolwr wedi cwblhau archwiliad o'r cynlluniau personol yn ddiweddar a'i fod wedi nodi bod angen eu diweddaru. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Ni chaiff y polisi na'r gweithdrefnau diogelu sydd ar waith eu dilyn bob amser. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos nad oedd y camau gweithredu cywir wedi cael eu cymryd mewn ymateb i honiad o esgeulustod. Gwelsom hefyd nad oedd cofnodion bob amser yn cael eu cadw ar gyfer materion diogelu posibl. Mae hyn yn cael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei

Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn lân, yn gynnes, yn gartrefol. Caiff ystafelloedd y bobl eu hunain eu personoli ag eitemau sydd o bwys iddynt, sy'n galluogi'r bobl i deimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol. Mae ystafelloedd bwyta ar gael yn y ddwy uned, sy'n rhoi cyfle i'r bobl fwyta eu prydau yng nghwmni eraill os ydynt yn dymuno. Ceir nifer o lolfeydd cymunedol lle gall y bobl dreulio amser gydag eraill neu wylio'r teledu. Mae sawl ardal wahanol lle gall y bobl gwrdd â'u ffrindiau neu berthnasau. Mae'r ardaloedd cymunedol wedi cael eu haddurno â gweithiau celf wedi'u fframio o'r ardal leol sy'n dod â'r gymuned i mewn i'r cartref. Mae cerddi sydd wedi cael eu hysgrifennu gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth i'w gweld ar y waliau, ac mae nifer o eitemau o bwysigrwydd diwylliannol, fel Cadair yr Eisteddfod, yn rhan o ddodrefn y cartref. Caiff pwysigrwydd diwylliant Cymru i'r bobl sy'n byw yn y cartref ei gydnabod. Yn yr uned dementia, caiff blychau atgofion, sy'n cynnwys eitemau ystyrlon i bob unigolyn, eu gosod ar y wal y tu allan i bob ystafell wely er mwyn helpu'r bobl i ddod o hyd i'w hystafelloedd eu hunain.

Adroddiad terfynol heb ei

Ni chaiff y risgiau i iechyd a diogelwch yn y cartref gofal eu nodi naturiol neu effeithiol. Mae'r cartref gofal wedi'i rannu'n ddwy ardal: yr uned breswyl a'r uned gofal dementia. Yn ystod taith o amgylch y cartref gofal, gwelsom nifer o beryglon i ddiogelwch y bobl a oedd yn peri risg o niwed i'r bobl. Gwelsom nad oedd y drysau mynedfa i gyntedd yr uned dementia ar glo. Mae'r ardal hon hefyd yn cysylltu â'r uned breswyl. Mae hyn yn golygu y gallai ymwelwyr fynd i mewn i'r cartref gofal heb ganiatâd y staff. Gwnaethom drafod hyn â'r darparwr yn dilyn yr arolygiad ac nid oedd yn ymwybodol o hyn. Gwnaethom nodi dwy allanfa yn yr uned dementia nad oeddent ar glo a oedd yn peri risg i'r bobl a allai adael y cartref gofal o bosibl heb yn wybod i'r gweithwyr gofal. Gwelsom nad oedd cynhyrchion sy'n cynnwys cemegion bob amser yn cael eu cadw'n ddiogel yn y ddwy uned a oedd yn peri risg i ddiogelwch y bobl. Caiff drysau'r ystafelloedd golchi dillad, y dylid eu cadw ar gau, eu cadw ar agor ac mae hyn yn peri risg diogelwch tân. Mae un o'r drysau tân yn yr uned dementia ar agor yn barhaol sy'n golygu na fydd yn cau yn awtomatig pe bai tân. Dengys y

cofnodion na chaiff gwiriadau ar y diffoddwyr tân eu cynnal yn wythnosol bob amser. Mae hyn yn cael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir a sut i godi unrhyw gwynion a allai fod ganddynt. Mae dogfen ganllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Mae'r wybodaeth yn cynnwys crynodeb o'r polisi cwynion, sut y gellir gwneud cwyn a sut yr ymatebir iddynt. Dywedodd y bobl a'r perthnasau wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt.

Ni chaiff gwybodaeth gyfrinachol a sensitif ei storio'n ddiogel bob amser. Gwelsom fod dogfen a oedd yn cynnwys gwybodaeth bersonol y bobl, gan gynnwys gwybodaeth iechyd sensitif, i'w gweld mewn ardal lle y gallai unigolion heb awdurdod ei gweld. Nid oedd hyn yn diogelu cyfrinachedd nac urddas y bobl. Gwelsom nad yw'r dogfennau sy'n cynnwys cofnod o'r gofal a'r cymorth a roddir i'r bobl mewn perthynas â gofal croen yn cael eu dyddio na'u storio mewn trefn bob amser. Felly ni cheir cofnod clir na chywir o'r gofal a ddarperir ac nid yw'n gofnod dibynadwy i ddangos bod y bobl wedi cael y gofal sydd ei angen arnynt. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel ond nid ydynt yn cael hyfforddiant na chyfarfodydd goruchwylio priodol. Gwnaethom edrych ar y cofnodion hyfforddiant a gwelsom nad oedd nifer o'r gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu, iechyd a diogelwch a hyfforddiant diogelu data er enghraifft. Nid oedd pob un o'r gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant ar ddementia ac roedd angen hyfforddiant gloywi ar y gweithwyr gofal hynny a oedd wedi ei gwblhau. Mae angen i'r gweithwyr gofal ymgymryd â hyfforddiant gorfodol er mwyn sicrhau y gallant gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau yn ddiogel ac yn effeithiol. Gwnaethom edrych ar y cofnodion goruchwylio a gweld nad yw'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd gyda'u rheolwr llinell. Mae hyn yn golygu nad yw'r gweithwyr gofal yn cael cyfle i drafod eu hymarfer, eu hanghenion hyfforddiant nac unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth, ond nid mor aml ag sy'n ofynnol. Mae'r cofnodion yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn siarad â'r bobl a'r gweithwyr gofal fel rhan o'r broses o fonitro'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth o leiaf bob tri mis, fel sy'n ofynnol. Mae hyn yn

effeithio ar allu'r Unigolyn Cyfrifol i fonitro perfformiad y gwasanaeth ac i sicrhau y caiff camau gweithredu eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella yn y gwasanaeth. Gwnaethom drafod hyn â'r Unigolyn Cyfrifol a rhoddodd sicrwydd bod cynllun ar waith i sicrhau y bydd yn cynnal ymweliadau fel sy'n ofynnol yn y dyfodol. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
57	Ni chaiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi a'u lleihau i'r eithaf. Sicrhau bod yr holl risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu nodi a bod mesurau ar waith i liniaru'r risgiau hynny.	Newydd

59	Ni chaiff dogfennau sy'n cofnodi gwybodaeth gyfrinachol a sensitif y bobl eu storio'n ddiogel bob amser. Sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel.	Newydd
27	Nid yw'r camau a gymerir mewn ymateb i honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod bob amser yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau diogelu'r darparwr gwasanaeth. Sicrhau y caiff y polisi a'r	Newydd
	gweithdrefnau diogelu eu dilyn bob amser pan gyflwynir honiad o gamdriniaeth neu esgeulustod.	
36	Nid yw pob un o'r gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'u rolau mewn ffordd ddiogel a chymwys. Sicrhau bod pob un o'r gweithwyr gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol gofynnol.	Newydd

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
16	Ni chaiff cynlluniau personol y bobl eu diweddaru pan fydd eu hanghenion gofal a chymorth yn newid. Sicrhau bod y cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am anghenion gofal a chymorth y bobl.	Newydd
73	Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r gwasanaeth o leiaf bob tri mis. Rhaid i'r UC sicrhau eu bod yn ymweld â'r cartref o leiaf bob tri mis fel rhan o'u monitro o berfformiad y gwasanaeth.	Newydd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

Dyddiad Cyhoeddi 28/03/2024

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi